



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

10 Mehefin 2022

9:00 yb to 12:00 yp

Trwy gyfrwng Zoom

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones (yn bresennol o 10:00 am), Alison Kemp, Andrea Hughes, Ann Woods, Catrin Roberts, Cyng Elen Heaton, Cyng Dilwyn Morgan, Cyng Alun Roberts, Delyth Lloyd-Williams, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Fôn Roberts, Helen Corcoran, Iwan Davies, Jenny Williams, Jo Whitehead (yn bresennol tan 11:30 am), Morwena Edwards, Nicola Stubbins, Ricki Owen, Sian Tomos, Teresa Owen, Trudy Ellis
Ymddiheuriadau:	Chris Stockport, Cyng Christine Jones, Cyng John Pritchard, Cyng Liz Roberts, Dave Hughes, Dr Lowri Brown, Meinir Williams-Jones, Neil Ayling, Sam Parry, Shan Lloyd Williams
Sylwedyddion:	Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu BIPBC Alan Morris, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim Materion Cyhoeddus a Phartneriaethau

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

Croesawodd y cadeirydd aelodau newydd i'r Bwrdd (BPRhGC); Trudy Ellis (Cynrychiolydd gofalwyr), Cyng Elen Heaton (Aelod Etholedig CSDd), Cyng Alun Roberts (Aelod Etholedig CSYM), Cyng Dilwyn Morgan (Aelod Etholedig CG) a Cyng Liz Roberts (Aelod Etholedig CBSC); a chymerodd y cyfle i ddiolch i'r aelodau etholedig oedd yn gadael yn dilyn yr etholiadau lleol diweddar.

Diolchodd hefyd i gydweithwyr BIPBC Bethan E Jones a Rob Smith am eu cyfraniad i'r Bartneriaeth a chroesawodd Alison Kemp (Cyfarwyddwr Interim Ardal y Canol) ac Andrea Hughes (Cyfarwyddwr Interim Ardal y Dwyrain).

2 Cyflwyniad ar yr Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad

Rhoddodd CP drosolwg o'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF), y gofynion a'r pwrpas, themâu allweddol, disgwyliad a'r camau nesaf.

Mae LIC yn gofyn i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol weithio mewn partneriaeth i baratoi a chyhoeddi ASF yn seiliedig ar ddata i bob awdurdod lleol yn ogystal â fersiwn gryno ar ôl-troed Bwrdd Partneriaeth Lleol.

Bydd yr adroddiad yn sail i wneud penderfyniadau yn rhanbarthol a lleol ar gomisiynu gofal a chymorth (yn enwedig, ond ddim yn unig, gwasanaethau rheoleiddiedig), bwydo i mewn i'r cynllun ardal strategol i ardal y Bwrdd a helpu i ffurfio strategaethau comisiynu lleol a rhanbarthol.

Nododd CP fod yr ASF wedi golygu cryn dipyn o waith gan y tîm rhanbarthol, gan fod angen ystyried y galw a'r manylion yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB), a dangos sut y cyflawnir yr anghenion hyn.

Gwnaed y gwaith, yn dilyn cais gan y Bwrdd, gan grŵp tasg a gorffen y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol (BCR) a arweiniodd ar y AAB a'r ASF, oherwydd y cysylltiadau cryf rhwng y gwaith. Mae'r ALI, BIPBC a chynrychiolwyr eraill wedi rheoli coladu data lleol a rhanbarthol i adroddiad i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

Mae manylion drafft yr Adroddiad yn manylu ar y themâu allweddol canlynol i'r cynllun ardal roi sylw iddynt:

- Gweithlu Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Preswyl/Cartrefi Gofal [oedolion]
- Gofal yn y Cartref
- Gwasanaethau Preswyl/Cartrefi Gofal [plant]
- Maethu a Mabwysiadu

a bydd grŵp tasg a gorffen y BCR yn parhau i sicrhau fod y themâu allweddol y cytunwyd arnynt yn yr adroddiad yn cael eu rhoi ar waith.

Ni chyrraeddwyd dyddiad cau gwreiddiol LIC, sef 1.6.2022 oherwydd yr etholiad lleol, a'r gofyn fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno drwy broses lywodraethu wleidyddol pob partner. Bydd yr ASF yn cael ei gadarnhau'n derfynol yng nghyfarfod mis Tachwedd 2022 y Bwrdd, wedi cael ei gadarnhau gan bob partner cyn hynny. Bydd sylwadau a dderbynnir yn y cyfamser yn cael eu hystyried. Bydd y ddogfen ddrafft derfynol, gyda chafeat, yn cael ei hanfon i LIC ddiwedd Mehefin.

Cydnabu JW y gwaith sylweddol a wnaed gan Grŵp Llywio'r BCR a chydweithwyr y rhanbarth ac ategodd fod yr agenda ymyriad cynnar ac atal hefyd yn cynnwys galluogi llif drwy'r system. Soniodd JW hefyd am y Strategaeth Lleoli a Chomisiynu Plant sy'n cael ei chwblhau ar hyn y bryd gan ALLau, ac mae angen sicrhau fod cyswllt rhwng y ddau ddarn yma o waith.

Bydd y ddogfen ASF ddrafft yn cael ei hanfon i aelodau BPRhGC yn dilyn y cyfarfod hwn i ofyn am sylwadau cyn gynted â phosibl ac erbyn 22.6.22 yn barod i'r ddogfen ddrafft derfynol ar 27.6.2022.

Dywedwyd wrth y Bwrdd fod yr ASF yn ddarn o waith byw a bydd cyfleoedd i ddylanwadu arno a'i ddiweddarau drwy gydol oes y ddogfen.

Wedi i'r ddogfen derfynol gael ei chadarnhau ym mis Tachwedd, bydd crynodeb gweithredol yn cael ei baratoi.

Cytunodd y Bwrdd i gadarnhau'r trosolwg drafft.

3 Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2021-22 Grant Blynyddol Gofalwyr

Cafodd y bwrdd ddiweddiariad gan FJ ar adroddiad blynyddol diwedd blwyddyn 2021/22 Grant Blynyddol Gofalwyr LIC .

Mae'r adroddiad yn manylu ar ddefnydd llawn cyllid grant blynyddol gofalwyr LIC yn 2021/22 (£213k), a ddyrannwyd i BIPBC i wella bywydau gofalwyr yn unol â'r blaenoriaethau cenedlaethol:

1. Helpu bywyd ochr yn ochr â gofalu
2. Adnabod a chydabod Gofalwyr
3. Cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth ac amcanion strategol y cynllun cenedlaethol newydd i ofalwyr.

Defnyddiwyd y cyllid fel a ganlyn:

- Cefnogi Meddygon Teulu i ddatblygu Ymwybyddiaeth Gofalwyr a ffyrdd o weithio i gefnogi gofalwyr – Hwyluswyr Gofal Sylfaenol
- Cymorth i ofalwyr mewn perthynas â chynllunio rhyddhau'r unigolion maent yn gofalu amdanynt o'r ysbyty – Hwyluswyr Gofal Eilaidd

Cynhwyswyd astudiaethau achos a gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r pandemig. Mae BIPBC yn ystyried hefyd rhoi cynllun achrediad ar waith yng Ngogledd Cymru, wedi edrych ar fodel llwyddiannus Hywel Dda, Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, ar ofynion staff Gofal Sylfaenol ac Eilaidd a Gofalwyr di-dâl.

Cytunodd y Bwrdd i gadarnhau Adroddiad terfynol Diwedd Blwyddyn Grant Blynyddol Gofalwyr 2020-2022 a nodwyd y byddai adrodd ar Ofalwyr yn y dyfodol y digwydd drwy fecanweithiau newydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (CIRh). Anfonir yr adroddiad i LIC erbyn 30.6.2022.

4 Cymru Iachach – Adroddiadau Rhaglenni Trawsnewid Charter 4 21-22

Cyflwynodd CR drosolwg cyfunol o adroddiadau chwarter 4 Rhaglen Drawsnewid 2021-22 ac adroddiad y Hwb Ymchwil:

- Rh D Gyda'n Gilydd at Iechyd Meddwl
- Rh D Gwasanaethau Cymunedol
- Rh D Plant a Phobl Ifanc
- Rh D Anabledd Dysgu
- Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwella RIIC

Erbyn hyn mae pob rhaglen naill ai wedi dod i ben neu wedi trosglwyddo i'r cyllid CIRh newydd. Mae'r adroddiadau unigol yn nodi'r hyn a gyflawnodd pob rhaglen yn y chwarter diwethaf, yn ogystal â'r manylion a roddwyd yn adroddiad gwerthuso'r RhT, a gadarnhawyd yn ddiweddar gan y Bwrdd. Mae'r dyraniad cyllid i bob rhaglen wedi'i wario'n llawn a phob hawliad wedi'u cyflwyno i LIC.

Cytunodd y Bwrdd i gadarnhau'r pedair Rhaglen Trawsnewid ac adroddiad y Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwella RIIC.

5 Adroddiad Blynyddol Hwb Cydlynu, Ymchwilio, Arloesi a Gwella (RIIC)

Derbyniodd y bwrdd drosolwg o adroddiad blynyddol yr Hwb RIIC rhanbarthol, a oedd yn rhoi gwybodaeth glir a manwl ar y gweithgaredd a wnaed yn y 12 mis diwethaf.

Rhoddodd ME gydnabyddiaeth i'r gwaith a wnaed gan y tîm rhanbarthol bychan sy'n allweddol i'r gwaith helaeth ychwanegol sy'n digwydd yn y rhanbarth. Mae'r Hwb RIIC wedi helpu cydweithwyr i symud ymlaen ar bob un o'r rhaglenni trawsnewid, cwblhau'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a chyfrannu'n sylweddol at waith yr ASF Mae cryn dipyn o waith y tîm Ymchwil yn digwydd yn y cefndir, ac atgoffir partneriaid i ddefnyddi'r hwb a'i hyrwyddo mewn sefydliadau a thimau.

Cytunodd y Bwrdd i nodi Adroddiad Blynyddol yr Hwb RIIC.

6 Adroddiad Diweddariad Cynnydd y Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru (FGCGC)

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan CR ar Gynnydd y Fforwm Gwerth Cymdeithasol.

Disgwylir i bob Fforwm Gwerth Cymdeithasol gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd i LIC ar weithgareddau a chyflawniadau'r Fforwm a sut mae wedi cyfrannu at arfer y dyletswyddau o dan Adran 16 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Bu'n rhaid i'r Fforwm gamu'n ôl yn ystod y pandemig ond fe'i hail-sefydlwyd ar ddiwedd 2021, gydag adolygiad o'r cylch gorchwyl ac adnabod aelodaeth ehangach mewn perthynas â'u gwybodaeth, eu profiad a'u diddordeb mewn gwerth cymdeithasol. Ailystyriwyd ffocws y grŵp, ac mae'r grŵp bellach yn canolbwyntio ar:

- wreiddio gwerth cymdeithasol yn y CIRh ehangach yng Ngogledd Cymru
- cysylltu â'r AAB a'r ASF, gan sicrhau fod gwerth cymdeithasol wedi'i ymgorffori'n llwyr
- datblygu ffordd gyson o fesur effaith gwerth cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru
- gweithredu fel rhwydwaith cefnogaeth cymheiriaid i arweinwyr Gwerth Cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru
- cyllid allanol a mewnol gyda phrosiectau'r trydydd sector

Erbyn hyn cysylltwyd cyfarfodydd chwarterol y fforwm â chyfarfodydd rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru Mantell Gwynedd, a chaiff gwybodaeth ei rhaeadru i ALLau a mudiadau cymunedol drwy gynrychiolwyr y fforwm.

Holodd TO a yw'r gwaith, a drafodwyd yn flaenorol yn y Bwrdd, o ystyried gwerth cymdeithasol gwaith sy'n cael ei wneud ym Manceinion, wedi digwydd ac a oes modd symud ymlaen ar hwn eleni.

Atgoffwyd aelodau'r Bwrdd fod gwerth cymdeithasol yn gyfrifoldeb ar bawb er mwyn cyflwyno buddion cymdeithasol i'r trigolion a rhan o swyddogaeth y Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol yw cefnogi mudiadau'r trydydd sector ar eu helw cymdeithasol ar fuddsoddiad.

Daeth CR â'r drafodaeth i ben gan hysbysu'r bwrdd fod FGCGC/BPRhGC yn bwriadu cynnal gweithdy yn y dyfodol i ystyried sut i gynnwys gwerth cymdeithasol mewn busnes bob dydd.

Cytunodd y Bwrdd i gadarnhau Adroddiad Diweddariad Cynnydd y Fforwm Gwerth Cymdeithasol.

Cam Gweithredu

- CR i roi diweddariad I TO ar gynnydd y gwaith gyda Manceinion.

7 Adroddiad Cynnydd Dementia 2021

Cafodd y bwrdd ddiweddariad gan CR ar y prif weithgareddau a chyflawniadau yn ystod 2021-22 yn erbyn y 4 prif ffrwd waith rhanbarthol syn bodloni Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-22.

1. Gweithredu Cynllun Gweithredu Strategaeth Dementia Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru:

O'r 33 maes blaenoriaeth ar gyfer datblygu a nodwyd, penderfynwyd ar 12 i symud ymlaen arnynt yn 2021-22 ac roedd 6 wedi'u cyflawni'n llawn gyda chynnydd da ar y 6 arall

Mae 4 Awdurdod Lleol wedi cyrraedd statws Sy'n Deall Dementia ac mae cynlluniau yn eu lle i'r 2 awdurdod arall.

2. Mae uchafbwyntiau o'r Gwella Llwybr y Gwasanaeth Asesu Cof 3-rhan yn cynnwys:

Rhan 1 – Comisiynwyd Cymdeithas Alzheimer's i gyflwyno gwasanaethau addysg a chefnogaeth o 1.4.2022.

Rhan 3- Comisiynwyd Cymdeithas Alzheimer's, yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Cynnal Gofalwyr a NEWCIS i gyflwyno cymorth ôl-ddiagnosis o 1.4.2022, gyda phartneriaid yn gweithio i ganfod lleoliadau ar gyfer 6 canolfan ddementia ar draws y rhanbarth fel rhan o'r gwaith hwn.

Rhan 2 – mae modelu'r galw a'r capasiti am Glinigau Cof yn mynd yn ei flaen ac mae cynlluniau clirio ôl-groniad rhestr aros y Clinigau Cof yn cael eu datblygu.

3. Gweithredu a Pharodwydd Safonau Dementia Cymru, er y bu oedi ar y gwaith am 6 mis oherwydd Covid, pwysau'r gaeaf a'r pwysau parhaus ar iechyd a gofal cymdeithasol, gwnaed cynnydd da ar y:
4. ddarpariaeth Gwasanaeth Dementia trwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn ardaloedd Gwledig, cafwyd darn o waith ar y cyd ag BPRh Powys wedi'i ariannu gan Gyllid Dementia 'Cenedlaethol' i ddeall y gwasanaethau Dementia mewn ardaloedd gwledig ac yn Gymraeg.

Yn ystod y drafodaeth nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cytunodd y Fforwm Mwy na Geiriau mewn cyfarfod diweddar i symud ymlaen ar yr argymhellion a chynnwys y rhain yng nghynlluniau gweithredu pob ALI ar

gyfer y Gymraeg, Trafnidiaeth a Chynhwysiant Digidol. Bydd Fforwm Mwy na Geiriau yn goruchwyllo'r gweithredoedd i adrodd yn ôl i'r Prosiect Dementia.

- Cynigiwyd y dylai teitl y Gwasanaeth Asesu Cof fod yn fwy hygyrch, gan fod Dementia yn gysylltiedig â swyddogaethau gwybyddol ehangach.

Cytunodd CR i gyfeirio'r cais hwn i'r Grŵp Llywio Dementia ei drafod

Cadarnhaodd CR hefyd y bydd monitro ffrwd waith Dementia yn y dyfodol yn dod yn rhan o fecanwaith cyffredinol monitro'r RIF a bydd yr adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r BPRhGC bob chwarter.

Cytunodd y Bwrdd i gadarnhau'r cynnydd a wnaed yn 2021-2022 a'r blaenoriaethau ar gyfer 2022-23. Cytunodd y Bwrdd i gadarnhau datblygu cynllun cyflawni manwl i fynd i'r afael â phroblemau darpariaeth gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg ac mewn ardaloedd gwledig.

Cam Gweithredu

- CR i roi gwybod am y cynnig i newid teitl Gwasanaeth Asesu Cof i fod yn fwy hygyrch i'r Grŵp Llywio Dementia i'w drafod

8 Diweddariad ar Gyllid yn y Dyfodol a chynllunio cynaliadwyedd

Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (CIRh) Modelau Gofal (MG)

Cyflwynodd CR adroddiad CIRh, er mwyn cael cymeradwyaeth i holl ddogfennau'r rhaglen sydd eu hangen ar LIC, sef y Cynllun Strategol a'r 7 Model Gofal, sydd eu hangen i gyflawni'r CIRhF yng Ngogledd Cymru 2022 - 27.

Yn dilyn trafodaeth eang yng nghyfarfod BPRhGC mis Mai, cynhwyswyd nifer o newidiadau yn yr adroddiad a gyflwynwyd. Cynhwyswyd hefyd cynnig i adnabod meysydd gwaith sefydlog, a oedd yn gorgyffwrdd mwy nag un model gwaith, a nodwyd Model Gofal sylfaen gan restru'r gorgyffwrdd, h.y. y Gymraeg, Comisiynu, y Gweithlu ayyb.

Bydd y Modelau Gofal yn parhau i esblygu drwy oes y GIRh, a bydd cyfle pellach i adolygu'r ddogfen yn barod at ddechrau'r 2il flwyddyn gyllid. Gall fod angen newidiadau pellach dros y misoedd nesaf o ganlyniad i adborth LIC.

Dyweddodd CR fod gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau'r tabl cyllid sy'n dangos costau cyffredinol y rhaglen, rhagolygon arian cyfatebol, a bydd hwn yn barod i'w drafod yng nghyfarfod BPRhGC Gorffennaf.

Mae Cynllun Strategol terfynol ICIRh, a drafodwyd hefyd BPRhGC Mehefin, hefyd yn cael ei gyflwyno i gael cymeradwyaeth y Bwrdd cyn i'r holl ddogfennau (gyda chafeatau) gael eu hanfon i LIC.

Cymerodd JoW y cyfle i hysbysu aelodau'r Bwrdd am ddisgwyliad y Gweinidogion o ran agweddau o'r GIRh, sef parhau i roi gwaith a ariannwyd yn barod yn y prif lif, ystyried y Model Gofal sydd gennym yn ei le yn barod a defnyddio'r adnoddau i helpu capasiti digonol yn y tymor byr dros fisoedd y gaeaf, o ystyried dyhead Cymru gyfan i gynyddu nifer gwelyau o 1000 erbyn mis Hydref.

Gwahoddwyd sylwadau a nodwyd y canlynol:

- Holodd y Cyng AR ar ba sail y mae'r % gwahanol wedi'u dyrannu i'r tabl cyllid.

Cadarnhaodd CR fod dyraniad cyllid wedi ei drafod a'i gadarnhau mewn cyfarfod blaenorol o'r BPRhGC. Y cytundeb yr adeg honno oedd brigdorri i dalu am y cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol – Dementia, GAI, Plant, Anabledd Dysgu ac Iechyd a Lles emosiynol gyda'r gweddill yn cael ei ddyrannu ar yr un sail hanesyddol â'r cyllid Cronfa Gofal Integredig.

- Cydnabu AH y gwaith sylweddol hwn, a nododd mai'r her fyddai'r elfen gweithlu – a chynigiodd fod gan Fwrdd Gweithlu Gogledd Cymru (BGGC) ran sylfaenol mewn recriwtio, hyfforddi a chadw gweithlu cymwys i fod yn sail i'r GIRh.

Cadarnhaodd CR fod yr elfen gweithlu yn thema gyffredin ym mhob model gofal ac y bydd y gwaith hwn yn bwydo i mewn i'r BGGC i ofyn am fesurau i fynd i'r afael â'r pryder, sy'n wir am bob maes.

Gofynnodd LR sut bydd gwaith y GIRh yn cael ei gydbwyso gan osgoi dyblygu ochr yn ochr â'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan bartneriaid wrth ddychwelyd i'r sefyllfa cyn y pandemig, gan gofio cyfyngiadau'r gweithlu a'r cynnydd mewn atgyfeiriadau a welir yn y system.

Eglurodd CR fod LIC wedi neilltuo adnoddau i adeiladu tîm rhanbarthol i helpu partneriaid i gyflawni'r GIRh. O ran cysylltu â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn barod gan bartneriaid, mae cyfle i gael darn o waith rhanbarthol i ddeall y gwaith gwella ehangach sydd eisoes yn digwydd ac i gysylltu cynlluniau â'i gilydd.

Cytunodd y Bwrdd eu bod yn cadarnhau'r Cynllun Strategol a'r 7 Model Gofal, ac y byddant yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhaglen waith Rhanbarth Gogledd Cymru i gyflawni'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol dros y cyfnod 01/04/22 - 31/03/27.

9 Ailstrwythuro BIPBC

Cafodd y bwrdd ddiweddariad gan Jo Whitehead am gynnydd ailstrwythuro BIPBC.

Roedd yr ailstrwythuro'n rhoi cyfle i BIPBC ddatblygu ffocws cryfach ar waith ataliol yn y boblogaeth, iechyd cyhoeddus yn ogystal â darpariaeth gwasanaeth, Meddygon Teulu, deintyddion, fferyllwyr, optometryddion, gofal eilaidd ysbytai cymunedol a gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector a'r ALL.

Yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori â'r staff a phartneriaid, roedd yr adborth a gafwyd o blaid dull o osod gwasanaethau yn seiliedig ar leoedd. Mae'r strwythur newydd yn dwyn ynghyd:

- Gofal Cynradd, Gwasanaethau Cymunedol, Gofal Eilaidd (Acíwt) a gwasanaethau Plant yn 3 Cymuned Iechyd – Dwyrain, Canol a Gorllewin, yn adrodd yn ôl yn ddyddiol i'r Cyfarwyddwr Cymunedol Iechyd ac arweinwyr proffesiynol o fewn eu meysydd proffesiynol h.y. nyrsio, therapïau ayb, hefyd yn cysylltu â'r gwasanaethau Gogledd Cymru gyfan a'r gwasanaethau cymorth
- Bydd Canser, Gwasanaethau Menywod, Diagnosteg a Chymorth Clinigol Arbenigol, Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu yn aros fel Gwasanaethau drwy Ogledd Cymru gyfan
- Bydd swyddogaethau Llywodraethiant Corfforaethol a Chefnogi Gwasanaethau ynghlwm wrth y gwasanaethau i gyd

Ar hyn o bryd mae BIPBC yn cefnogi arweinyddiaeth a thimau sy'n ymddangos drwy'r broses rheoli newid ac yn parhau i weithio ar y llywodraethiant a'r prosesau er mwyn rhoi hyblygrwydd diogel ac atebolrwydd i'r strwythur yn seiliedig ar leoedd er mwyn gweithio'n gryf ar ôl-troed ardal.

Cadarnhaodd JoW fod BIPBC wedi ymrwmo i sicrhau y bydd y sylw ar waith partneriaeth yn cael ei gryfhau gan y newidiadau, heb ostyngiad yn nifer y gallu i arwain, ac yn hyderus o allu cydbwysu cyfrifoldebau ar draws pob ardal iechyd acíwt, cynradd, cymunedol a phoblogaeth.

O safbwynt gweithredol a strategol, nododd NS fanteision cael parhad o fewn strwythurau ardal oherwydd bod gwybodaeth sefydliadol yn hanfodol, h.y. trafodaeth gynharach y GIRh, a dealltwriaeth am y gwaith a wnaed yn rhanbarthol yn y blynyddoedd diwethaf. Nododd NS hefyd bryder am broblemau capasiti ehangach yn y tymor hir, gydag ALLau hefyd yn cael problemau recriwtio a chadw, mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ogystal ag ar draws gwasanaethau corfforaethol ALI yn ehangach, a'r pryder ynghylch pa mor gyflym y bydd y swyddi allweddol yn cael eu recriwtio ar sail barhaol.

Cadarnhaodd JoW fod rhai swyddi eisoes wedi cael eu llenwi ac y bydd y cynlluniau ail-alluogi presennol yn parhau. Bydd yr ailstrwythuro yn cadw nifer y staff, dim ond yn rhoi blaenoriaeth i bwysigrwydd dull yn seiliedig ar leoedd, a bydd yn symleiddio prosesau a rheolaeth ar draws y sefydliad.

Nododd ME 2 bwynt:

- Er ei bod yn deall y penderfyniad i gadw rhai gwasanaethau fel gwasanaeth Gogledd Cymru gyfan, byddai'n well ganddi weld Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn symud i drefniadau lleol h.y. Iechyd Meddwl yn rhan annatod o glystyrau, gwaith cymunedol a'r ALI.

Cadarnhaodd JoW fod cadw cysondeb yn hollbwysig i wasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn ystod y newidiadau sy'n mynd rhagddynt i'r ailstrwythuro. Y cynnig yw ymdrechu i weithio trwy'r Cymunedau Iechyd integredig i weithio i wreiddio gwasanaethau Gogledd Cymru gyfan yn y cymunedau hynny ar draws y Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin, pan mae'n glinigol briodol i wneud hynny.

- Hoffai weld BIPBC yn datblygu talent ac arweinyddiaeth mewnol ar lefel leol, yn enwedig mewn perthynas â'r siaradwyr Cymraeg, fel y gallant gymryd swyddi arweinwyr yn y dyfodol.

Roedd JoW yn cytuno, gyda BIPBC yn cynllunio cefnogi'r dalent enfawr a welwyd yn barod ar draws Gogledd Cymru.

Diweddariad BIPBC

- Mae cleifion Covid yn parhau i gael eu trin yn yr Uned Therapi Dwys ond nid yw'r clefyd mor llym, a gellir cefnogi cleifion mewn modd nad yw'n cael effaith ar system BIPBC fel yn gynt yn y pandemig
- Erbyn hyn gall ysbytai a lleoliadau iechyd dderbyn ymwelwyr ar draws pob safle a llacio cadw pellter cymdeithasol mewn ardaloedd triniaeth, cleifion allanol a diagnosteg.
- Disgwylir canllawiau gan y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCIV) ar y rhaglen frechu nesaf a chyfuno brechiadau fflw a Covid yn y dyfodol
- Bydd llawdriniaeth ddewisol i gleifion allanol a phrofion diagnosteg yn parhau, gan anelu at gapasiti o 100% i daclo'r rhestrau aros, gyda gwasanaethau ychwanegol yn comisiynu o ffynonellau allanol.

Mae pob gwaith yn mynd rhagddo, er bod angen cydnabod, ar unrhyw adeg, y gall fod angen newid yn sydyn, i ddull ymatebol.

10 Adolygiad o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanborthol Gogledd Cymru (BPRhGC)

Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Bwrdd, cynigiwyd fod arolwg yn cael ei anfon yn dilyn cyfarfod heddiw i gael barn aelodau am:

- Adolygu'r Cylch Gorchwyl – ydyn nhw'n adlewyrchu pwrpas y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Gosod blaenoriaethau i'r Bwrdd
- Blaengynllunio gwaith i'r Bwrdd
- Unrhyw eitemau eraill y gofynnwyd amdanynt gan y Bwrdd

Dywedodd CR y byddai'n croesawu barn aelodau'r BPRhGC er mwyn gwella mecanwaith y Bwrdd dros y misoedd nesaf.

Cynigiodd y cadeirydd drefnu cyfarfod cynllunio strategaeth ym mis Gorffennaf a hynny wyneb yn wyneb i drafod canlyniadau'r arolwg a gweithredoedd posibl.

Cynigiodd ID fod yr holiadur yn cael ei anfon hefyd i aelodau etholedig sydd newydd adael i gael eu safbwynt nhw am y bwrdd yn ystod eu hamser fel aelodau.

Dywedodd MW fod sedd yr is-gadeirydd yn wag hefyd, a bydd hyn ar yr agenda i'w drafod ym mis Gorffennaf.

Atgoffwyd yr aelodau gan ME am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar waith comisiynu; yn ôl un o'r argymhellion nid oedd gan y Bwrdd ddigon o gysylltiadau â chraffu a digon o atebolrwydd am benderfyniadau. Gall hyn fod yn gyfle i fyfyrion ar gyfleoedd a gollwyd ac i bawb roi mewnbwn i'r Cylch Gorchwyl.

Cytunodd y Bwrdd i nodi'r adroddiad a bydd trafodaeth ar ganlyniadau'r arolwg ar agenda mis Gorffennaf.

Cam Gweithredu

- Holiaduron i gael eu cylchredeg - RW

11 Aelodaeth y Grŵp GaG Ymgysylltiad a Llais - enwebiadau defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r trydydd sector

Soniodd y cadeirydd am gais gan LIC am enwebiadau defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r trydydd sector o'r BPRhGC, i fod ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltiad a Llais, fel rhan o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Pwrpas y grŵp hwn fydd datblygu a bwrw golwg dros gyflawni rhaglen waith i gryfhau ymgysylltiad y dinesydd a dulliau mynegi llais o fewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, cryfhau ymgysylltiad â'r trydydd sector a grwpiau cymunedol, a (lle'n briodol) darparwyr gofal a chymorth.

Cytunodd RO i fod yn gynrychiolydd ar ran y Bwrdd. Enwebiadau ychwanegol i gysylltu â RW.

Cam Gweithredu

- Diweddarau LIC ar enwebiad I'r Grŵp GaG Ymgysylltiad a Llais

12 Cofnodion a gweithredoedd y cyfarfod diwethaf – Mai 2022

Cytunwyd fod cofnodion 13.5.2022 yn gofnod cywir o'r cyfarfod gyda phob gweithred wedi'i chwblhau.

13 Unrhyw fater arall – dim l'w adrodd

14 Cynhwyswyd y canlynol yn y pecyn er gwybodaeth:

- PAPAC – Llythyr i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar Gomisiynu Cartrefi Gofal yng Nghymru
- Effaith Cyflogaeth Yn Erbyn Cyfrifoldebau Gofalu – Crynodeb o Arolwg y Cytundeb
- Trosolwg proses CIRh – Blwyddyn drawsnewidiol gyntaf
- Llythyr Rheolwr Perthnasau CIRh – Gogledd Cymru

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener 10 Mehefin 2022, 9:00 – 12:00pm